

Datganiad Polisi Amgylcheddol Prifysgol Aberystwyth

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod ei chyfrifoldeb i warchod yr amgylchedd rhag effaith ei gweithrediadau a'i gweithgareddau ac i ddylanwadu ar ei staff, ei myfyrwyr a'r gymuned ehangach i leihau eu heffeithiau drwy ei gweithredoedd, ei haddysgu a'i hymchwil.

Mae rheolwyr y Brifysgol ar bob lefel yn ymrwmo i ddiwallu gofynion yr holl deddfwriaeth ac arweiniad amgylcheddol perthnasol yn llawn, a gwella perfformiad amgylcheddol yn barhaus.

Wrth roi System Rheoli Amgylcheddol ISO14001 ar waith, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

- Fel lleiafswm, cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol a gwella ar y safonau perfformio a bennir ganddynt lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.
- Cynnal ein gweithgareddau mewn modd sy'n amgylcheddol gyfrifol.
- Gwneud ymdrech barhaus i fonitro a gwella ein systemau rheolaeth amgylcheddol er mwyn lleihau gollyngiadau amgylcheddol i'r aer a dŵr a chynhyrchu gwastraff, ynghyd â defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon.
- Atal llygredd a rheoli allyriadau a gollyngiadau.
- Parhau i ddatblygu a chefnogi'r Cynllun Teithio a gwella opsiynau teithio er mwyn lleihau allyriadau carbon ac allyriadau eraill yn sgil teithiau staff a myfyrwyr a cherbydau fflyd y Brifysgol.
- Datblygu strategaeth i reoli a lleihau gwastraff yn ôl hierarchaeth gwastraff, a'i rhoi ar waith.
- Rhoi Polisi Caffael Cynaliadwy ar waith sy'n lleihau effeithiau carbon ac amgylcheddol y gweithgareddau caffael.
- Cyflawni gradd BREEAM Rhagorol ar gyfer adeiladau newydd ac o leiaf Da lawn ar gyfer pob adnewyddu sylweddol.
- Ei gwneud yn ofynnol i'n holl gyflogeion a myfyrwyr, partneriaid masnachol a chontractwyr roi ystyriaeth ddyledus i'r amgylchedd wrth weithio, a darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth lle bo angen.
- Defnyddio ein hymchwil lle bo'n briodol i ddatblygu prosiectau a chynhyrchion sydd o fudd amgylcheddol a gwella cynaladwyedd ein gweithgareddau ymchwil.
- Cynnwys pynciau rheoli risg a datblygu cynaliadwy yn y cyrsiau astudio a addysgir gennym.

Bydd Prifysgol Aberystwyth yn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i roi'r polisi ar waith. Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam angenrheidiol, gan gynnwys mesur perfformiad ac archwilio cydymffurfiaeth, i sicrhau bod y polisi yn cael ei ddeall a'i roi ar waith a'i gynnal ar bob lefel.

Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol, a'i ddiweddarau pan fydd angen a thynnir sylw'r holl gyflogeion ac unrhyw un arall yr effeithir arnynt at unrhyw ddiwygiadau.

Llofnod:

Dyddiad: 16 Mai 2014

Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor